

Polisi Absenoldeb Ymchwil Prifysgol Aberystwyth

Lle bydd cyfnod i ffwrdd o ddyletswyddau arferol i wella ymchwil ar gael o fewn Cyfadran, bydd y gweithdrefnau isod yn berthnasol:

Terminoleg

‘Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol’: cyfnod o semester¹ o leiaf i ffwrdd o ddyletswyddau gwaith arferol wedi’i ariannu gan Brifysgol Aberystwyth drwy gyflog. Gall adran yr ymgeisydd argymhell dyddiadau penodol ar gyfer y cyfnod absenoldeb er mwyn darparu ar gyfer gofynion adrannol.

‘Absenoldeb Ymchwil a Gyllidir yn Allanol’: cyfnod o semester o leiaf i ffwrdd o ddyletswyddau gwaith arferol wedi’i ariannu gan noddwr allanol (yn talu am gostau addysgu).

Absenoldeb Effaith Ymchwil: hefyd ar gael i staff, y tu allan i ddarpariaeth Absenoldeb Ymchwil. Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Egwyddorion

- 1 Rhaid i ymchwil fod yn weithgaredd parhaus, sy’n rhan annatod o fywyd academiaidd Prifysgol Aberystwyth ac yn creu diwylliant addysgu a arweinir gan ymchwil. Ni ddylai ymgymryd â gwaith ymchwil o ansawdd uchel ddibynnu ar amser i ffwrdd o ddyletswyddau gwaith arferol.²
- 2 Pwrpas Absenoldeb Ymchwil yw gwella ymchwil a chyfrannu at Strategaeth Ymchwil y Brifysgol, gan gefnogi a chyflymu’r cyfraniad i allbynnau ymchwil a cheisiadau grantiau ymchwil gan aelodau staff academiaidd.
- 3 Mae Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol yn agwedd benodol ar gefnogaeth academiaidd Prifysgol Aberystwyth i ymchwil. Nid hawl mohono, ac fe’i caniateir yn unig ar sail cais sy’n dangos gwaith arfaethedig o ansawdd rhagorol o ran ei wreiddioldeb, ei arwyddocâd a’i fanylder.
- 4 Gall Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol ac Absenoldeb Ymchwil a Gyllidir yn Allanol gael eu cymryd ym Mhrifysgol Aberystwyth, neu fe all gynnwys y cyfnod cyfan, neu rannau ohono, i ffwrdd o Brifysgol Aberystwyth.
- 5 Mae’r polisi hwn yn amodol ar ei adolygu bob dwy flynedd gan y Pwyllgor Ymchwil.

Cymhwysedd

Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol: Mae gan unrhyw aelod staff a gyflogir ar gontract Addysgu ac Ymchwil o 0.2 CALI neu’n uwch yr hawl i wneud cais ar gyfer un semester o Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol ym mhob wyth semester. Ni fydd staff yn gallu cronni hawl i wneud cais am fwy na dau semester yn olynol o Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol.

Mae cymhwysedd i wneud cais am Absenoldeb Ymchwil yn amodol ar yr ystyriaethau canlynol:

¹ Gellir caniatáu cyfnodau absenoldeb untro (o lai nag un semester) i ffwrdd o ddyletswyddau gwaith arferol, ar gyfer gwaith ymchwil, yn ôl disgrisiwn yr adran / cyfadran ond bydd y tu allan i’r drefn Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol a ddisgrifir yn y polisi hwn.

² Fe all cyfnodau eraill o amser ymchwil cryno gael eu cyflawni drwy amserlennu adeiladol a rhannu addysgu’n hyblyg rhwng cyd-weithwyr.

- Mae'n arferol i ymgeiswyr gael cyfnod di-dor o wyth semester o wasanaeth cyn cymryd absenoldeb ymchwil y Brifysgol. Gellir cronni gwasanaeth di-dor drwy gcontractau cyfnod penodol neu agored, cymwys, neu gyfuniad o'r ddau. Rhaid i staff a gyflogir ar gcontract cyfnod penodol gael contract sy'n berthnasol i'r cyfnod absenoldeb ymchwil y gwneir cais amdano.
- Ni all staff academiaidd ar gyfnod prawf wneud cais am Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol. Fodd bynnag, mae'r cyfnod a dreulir ar brawf yn cyfrif tuag at groniad hawl i Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol, hynny yw yn rhan o gyfnod o wasanaeth parhaus dros wyth semester.
- Bydd gan Ddirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran ryddid i ddwyn ymlaen Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol ar gyfer Ymchwilydd Gyrfa Gynnar, sydd wedi cwblhau cyfnod prawf, os yw'n hanfodol ar gyfer cyflwyniad adran gyflwyno i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY), ac os yw arweinydd ymchwil yr adran, arweinydd dysgu ac addysgu'r adran a'r Pennaeth Adran yn cytuno â'r argymhelliad.
- Ar gyfer staff sydd newydd eu penodi, gall Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran, mewn amgylchiadau eithriadol, gymryd i ystyriaeth hawliau blaenorol i absenoldeb ymchwil.

Absenoldeb Ymchwil a Gyllidir yn Allanol: Mae gan unrhyw aelod staff a gyflogir ar gcontract Addysgu ac Ymchwil o 0.2 CALI neu'n uwch yr hawl i wneud cais ar gyfer Absenoldeb Ymchwil a Gyllidir yn Ariannol o unrhyw hyd, yn amodol ar yr ystyriaethau canlynol:

- Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ar gyfer Absenoldeb Ymchwil a Gyllidir yn Allanol sicrhau cymeradwyaeth eu Pennaeth Adran neu lofnod enwebai'r Gyfadran ar ffurflen RG1 fel rhan o'r weithdrefn arferol ar gyfer [ymgeisio am grantiau ym Mhrifysgol Aberystwyth](#).
- Rhaid cymryd o leiaf semester ar gyfer Absenoldeb Ymchwil a Gyllidir yn Allanol.
- Rhaid i Absenoldeb Ymchwil a Gyllidir yn Allanol, gyflenwi dyletswyddau addysgu a gweinyddu llawn o leiaf, a thalu am ddarpariaeth sylweddol o amser yr aelod staff. Dylid trafod hyn â Phennaeth yr Adran neu lofnodwr enwebedig y Gyfadran ar gyfer Ffurflen RG1 cyn dechrau gwneud cais ar gyfer cyllid allanol. Rhaid cynllunio digon o amser ar gyfer recriwtio staff ychwanegol cyn i'r absenoldeb ymchwil ddechrau.

Amodau cyffredinol

- Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran berthnasol sy'n gyfrifol am ganiatáu Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol yn y pen draw.
- Mae caniatáu Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol yn amodol ar argyhoeddi Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran y gellir gwneud trefniadau digonol yn adran yr ymgeisydd i ddarparu staff wrth gefn yn ystod y cyfnod i ffwrdd o ddyletswyddau gwaith arferol (fel arfer addysgu, arholi a gweinyddu). Rhaid i drefniadau cyflenwi addysgu hefyd fod o fewn i ganllawiau addysgu a dysgu cyfredol, heb leihau ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr, yn enwedig o ran darparu addysgu a chymorth i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd staff ar Absenoldeb Ymchwil fel arfer yn parhau i oruchwylio eu myfyrwyr PhD oni bai fod trefniadau adrannol boddhaol yn bodoli ac yn cael eu cadarnhau i Ddirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran.
- Disgwylir i ddarpar dderbynyddion Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol gynllunio ymhell ymlaen llaw. Dylai hyn gynnwys cynllunio ceisiadau am grantiau ymchwil i gefnogi costau ymchwil a theithio, gan nad yw Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol yn cefnogi, nac yn cyfrannu at deithio, na threuliau eraill.

- Ni ellir dal swydd gyflogedig arall yn ystod y cyfnod Absenoldeb Ymchwil, ac eithrio gyda chaniatâd y Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymchwil. Bydd rheolau arferol y Brifysgol yn berthnasol ar gyfer unrhyw waith ymgynghori a wneir.
- Bydd amser a dreulir ar absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth yn cyfrif tuag at hawl i Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol, hynny yw yn rhan o'r cyfnod parhaus o wasanaeth dros wyth semester.
- Bydd amser a dreulir ar Absenoldeb Effaith Ymchwil yn cyfrif tuag at hawl i Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol, hynny yw yn rhan o'r cyfnod parhaus o wasanaeth dros wyth semester.
- Bydd amser a dreulir ar Absenoldeb Ymchwil a Gyllidir yn Allanol yn cyfrif tuag at hawl i Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol, hynny yw yn rhan o'r cyfnod parhaus o wasanaeth dros wyth semester.

Trefn ymgeisio

- 1 Bydd Dirprwy Is-Ganghellorion y Cyfadrannau (neu'r Deoniaid Ymchwil Cysylltiol) yn gwahodd aelodau cymwys eu Cyfadrannau i wneud cais am Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.
- 2 Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn mis Rhagfyr bob blwyddyn³, er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried y ceisiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.
- 3 Dylai ymgeiswyr ar gyfer Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol gyflwyno eu ceisiadau i arweinydd ymchwil yr adran yn y lle cyntaf. Mae'r Ffurflen Gais a'r Ffurflen Adrodd ar gyfer Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol ar gael yma.
- 4 Dylai ymgeiswyr nodi'r rheswm dros Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol, yr allbynnau disgwylidig, a'r amserlenni ar gyfer mesur effeithiolrwydd yr amser ar ymchwil. Rhaid i ymgeiswyr drafod eu hachos gyda chydweithredwyr, arweinwyr ymchwil, Deoniaid Ymchwil Cysylltiol, mentor a / neu gyd-weithwyr eraill, a'i drafod o fewn strategaethau ymchwil ehangach priodol.
- 5 Gofynnir i arweinydd ymchwil yr adran, arweinydd dysgu ac addysgu'r adran, a'r Pennaeth Adran (os yw'n wahanol): gadarnhau cymhwysedd yr ymgeisydd i wneud cais; rhoi sylwadau ar gryfder ac uchelgais y cais mewn perthynas â pherfformiad ymchwil yr unigolyn yn flaenorol; cadarnhau bod darpariaeth arfaethedig ar gael ac yn ddigonol, e.e. cyflenwi addysgu o fewn i ganllawiau dysgu ac addysgu cyfredol.
- 6 Dylai pob cais ar gyfer Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol o fewn i Gyfadran gael eu hanfon i'w hystyried gan Grŵp Gwerthuso Absenoldeb Ymchwil a enwebwyd gan Ddirprwy Is-Ganghellor Cyfadran (awgrymir aelodaeth fel a ganlyn: Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran, Deon Ymchwil Cysylltiol ac arweinwyr ymchwil adrannol, a hefyd y Pennaeth Adran)⁴.
- 7 Bydd Grŵp Gwerthuso Absenoldeb Ymchwil y Gyfadran yn ystyried y cais ar sail: sylwadau'r adran ar gryfder y cais a'r trefniadau ar gyfer cyflenwi addysgu; perthnasedd y cais i strategaeth ymchwil y Brifysgol a blaenoriaethau ymchwil y Gyfadran; llwyddiant adroddiadau o gyfnodau blaenorol o Absenoldeb Ymchwil; a gyflwynwyd yr ymgeisydd ar gyfer y FfRhY blaenorol.
- 8 Bydd Grŵp Gwerthuso Absenoldeb Ymchwil y Gyfadran yn hysbysu canlyniadau'r drefn gymeradwyo ceisiadau i bob ymgeisydd a'r Pennaeth Adran perthnasol.
- 9 Bydd pob cyfnod o Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol y gwnaethpwyd cais llwyddiannus amdano yn cael ei gofnodi yn ôl yr aelod staff perthnasol yn PoblAberPeople.

³ Dylai'r Gyfadran gytuno ar ddyddiad cyflwyno penodol bob blwyddyn.

⁴ Gellir gwneud hyn ym Mhwyllgor Ymchwil y Gyfadran, yn ôl disgrisiwn Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran.

Dull adrodd ar ôl y cyfnod o absenoldeb ymchwil

- Bydd Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran (neu ei (h)enwebai o fewn i'r Gyfadran) yn atgoffa staff ar ddiwedd eu cyfnod o Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol i gyflwyno adroddiad ar eu gweithgaredd o fewn mis ar ddiwedd cyfnod yr absenoldeb. Dylid gwneud hyn drwy ddiweddarau eu ffurflen gais, sy'n cynnwys lle i adrodd yn erbyn gweithgaredd a gynlluniwyd.
- Dylai'r adroddiad gael ei ddychwelyd, fel arfer, at arweinydd ymchwil yr adran. Bydd Grŵp Gwerthuso Absenoldeb Ymchwil y Gyfadran yn ei adolygu, ac yn darparu adborth i'r aelod staff. Dylid atodi'r adroddiad cwblhau Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol a'r adolygiad ohono i Gynllun Ymchwil Personol yr unigolyn (PeRP).
- Dylai'r Grŵp Gwerthuso Absenoldeb Ymchwil y Gyfadran gwrdd fel arfer ddwywaith y flwyddyn (unwaith bob semester) er mwyn adolygu adroddiadau cwblhau Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol a gymerwyd yn ystod y semester blaenorol.
- Yna, dylai Grŵp Gwerthuso Absenoldeb Ymchwil y Gyfadran baratoi crynodeb o'r holl adroddiadau cwblhau Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol a'r adolygiadau, ar gyfer cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Ymchwil Gweithredol yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf.
- Dylai'r Pwyllgor Ymchwil Gweithredol gadarnhau eu bod yn cymeradwyo'r gwerthusiadau a wneir gan bob Cyfadran, yn cynnwys cadarnhau a yw pob unigolyn wedi sicrhau canlyniad boddhaol ar gyfer eu cyfnod Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol ai peidio.
- Os bernir nad yw unigolyn wedi sicrhau canlyniad boddhaol ar gyfer eu cyfnod o Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol, dylai'r Gyfadran berthnasol ddarparu mentora i'r unigolyn er mwyn iddo/iddi fedru cyflawni'r deilliannau gosod, lle bo'r rheiny'n dal yn briodol.
- Gall methu â sicrhau canlyniad boddhaol gyfrif yn erbyn cais dilynol unigolyn ar gyfer Absenoldeb Ymchwil (naill ai yn y Brifysgol neu'n Allanol).

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- Bydd Adnoddau Dynol yn darparu asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb bob blwyddyn ar gyfer cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Ymchwil Gweithredol yn nhrydydd tymor academiaidd y flwyddyn (a chyn dechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf/cyfnodau cyntaf Absenoldeb Ymchwil y Brifysgol) ar sail cymhwysedd yr ymgeiswyr a dosbarthiad Absenoldeb Ymchwil gan Gyfadranau. Gwneir hyn er mwyn asesu gwahaniaethu anfwriadol ar sail rhyw, cam gyrfa / swydd, ethnigrwydd, statws CALI, etc.
- Er mwyn gwneud hyn, dylai'r Gyfadran anfon rhestr yn cynnwys y manylion isod at y tîm Adnoddau Dynol perthnasol erbyn diwedd Chwefror bob blwyddyn:
 - yr holl staff sy'n gymwys i wneud cais am absenoldeb ymchwil yn y cyfnod, hynny yw y flwyddyn academiaidd nesaf (yn ôl yr hyn a gymeradwywyd gan yr adran);
 - yr holl staff cymwys sydd wedi gwneud cais am absenoldeb ymchwil yn y cyfnod;
 - yr holl ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus wrth sicrhau absenoldeb ymchwil yn y cyfnod.